# Penderfyniad ar yr Apêl

gan Mr A Thickett BA (Anrh) BTP Dip RSA MRTPI

Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru

Dyddiad y penderfyniad: 13.06.2023

Cyfeirnod yr apêl: CAS-02271-X6F9F4

Cyfeiriad y safle: Cae Celyn, Heol Llanfair, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 8JX

---

- Gwneir yr apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.
- Gwneir yr apêl gan Wasanaethau Coed Llambed yn erbyn y penderfyniad gan Gyngor Sir Ceredigion.
- Gwrthodwyd y cais, Cyf A201119, dyddiedig 5 Chwefror 2021, drwy hysbysiad dyddiedig 11 Awst 2022.
- Y datblygiad a gynigir yw cadw odyn sychu plociau biomas, a dwy simnai a pharhau i ddefnyddio boeler rhif 1 yn unig (yng nghanol yr adeilad) yn dilyn gweithgarwch profi a oedd yn ymwneud â chaniatâd cynllunio dros dro A190302.
- Gwnaed ymweliad â'r safle ar 11 Mai 2023.

---

**Penderfyniad**

1. Caniateir yr apêl a rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer cadw odyn sychu plociau biomas, a dwy simnai a pharhau i ddefnyddio boeler rhif 1 yn unig (yng nghanol yr adeilad) yn dilyn gweithgarwch profi yn ymwneud â chaniatâd cynllunio dros dro A190302 yng Nghae Celyn, Heol Llanfair, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 8JX, yn ddarostyngedig i delerau'r cais, cyfeirnod A201119, dyddiedig 5 Chwefror 2021 ac yn ddarostyngedig i'r amod canlynol.

    1. Cyn i foeler rhif 1 gael ei ddefnyddio eto, rhaid i fanylion strategaeth liniaru gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Rhaid cadw at y strategaeth liniaru gymeradwy bob amser a chyhyd ag y bydd Boeler Rhif 1 yn cael ei ddefnyddio.

    Rheswm: Er mwyn diogelu amodau byw preswylwyr cyfagos yn unol â Pholisi DM22 y Cynllun Datblygu Lleol.

**Prif Fater**

2. Y prif fater yw effaith parhau i ddefnyddio Boeler Rhif 1 ar amodau byw preswylwyr cyfagos o ran mwg ac arogl.

**Rhesymau**

3. Mae Gwasanaeth Coed Llambed yn gweithredu o safle i'r de-ddwyrain o'r dref. Mae'r safle'n cynnwys adeilad mawr ac ierdydd a ddefnyddir ar gyfer parcio cerbydau a storio

pren. Er ei fod yn agos at Lanbedr Pont Steffan, mae wedi'i leoli mewn cefn gwlad, ac mae'r tŷ agosaf tua 100m i'r gorllewin o'r adeilad. Yn union gyfagos i'r terfyn dwyreiniol, mae carafán sefydlog.

4. Gosodwyd amod ar y caniatâd cynllunio ar gyfer yr adeilad, yn dileu hawliau datblygu a ganiateir mewn perthynas â gosod offer a pheiriannau. Rhoddwyd caniatâd cynllunio dros dro ar gyfer cais i gadw odyn sychu plociau biomas, dau foeler biomas, a dwy simnai, o 17 Tachwedd i 17 Rhagfyr 2020. Yn dilyn y cyfnod prawf, cyflwynodd yr apelydd y cais sy'n destun yr apêl hon i weithredu un o'r boeleri (rhif 1).

5. Yn ystod y cyfnod prawf, ymwelodd y Cyngor â'r safle 13 o weithiau, gan gynnwys 4 archwiliad gan Dîm Iechyd yr Amgylchedd. Ar 7 o'r achlysuron hynny, roedd boeler rhif 1 yn weithredol. Mae adroddiad pwyllgor y Cyngor yn cofnodi'r canlynol: '*Ar y diwrnodau hyn, roedd yr allyriadau yn gyffredinol glir neu'r isaf posibl a nododd y Swyddog mai ychydig iawn o arogl mwg oedd ar y safle wrth ymyl yr adeilad neu yn yr iard gyfagos i'r de. Yn ystod y diwrnodau hyn, roedd ychydig iawn o wynt neu ddim gwynt o gwbl ac ymddangosai cyfeiriad y gwynt fel pe bai o'r gogledd/gogledd-ddwyrain. Eithriad bach i hyn oedd ar 15 Rhagfyr pan ymddangosai fel pe bai cyfeiriad y gwynt o'r de-orllewin (h.y. tuag at y garafán), er yn ysgafn. Yn ystod yr ymweliad hwn, nododd y Swyddog ychydig o arogl mwg wrth ymyl y garafán, ond nid oedd hwn yn llethol.*'

6. Dywedodd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yr ymwelwyd â'r safle ar 9, 15, 16 a 17 Rhagfyr 2020. Nid oedd y boeler yn cael ei ddefnyddio ar y 15fed. Roedd yr odyn yn weithredol ar yr 16eg yn unig, ond gwelwyd nad oedd yn achosi sŵn uwchlaw lefel sŵn cefndir cyffredinol y safle. Mewn perthynas ag arogl, dywedodd y swyddogion eu bod yn gallu arogli sylwedd ag arogl cryf y tu draw i ffin y safle ar bob ymweliad, ar wahân i'r 15fed. Disgrifiwyd yr arogl fel un '*prennaidd, nid yn arbennig o annymunol neu gryf, ond yn amlwg iawn.*'

7. Yn ogystal, dywedodd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd mai dim ond '*yn awr ac yn y man*' y gellid ei arogli ac nad oedd ar lefel a fyddai'n gyfystyr â niwsans statudol '*gan na fyddai'n ymyrryd yn sylweddol â mwynhad neu gysur unrhyw un yn yr ardal.*' Roedd y Swyddogion yn cydnabod pe bai modd ei arogli am gyfnodau hir ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau'r wythnos, byddai'n cael effaith andwyol. Yn olaf, argymhellodd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd y dylid cau'r drws rholio ar yr ochr ddwyreiniol bob amser y byddai'r boeleri'n cael eu defnyddio, ar y sail y byddai gwneud hynny'n '*lliniaru'n sylweddol ac yn rhwystr ffisegol rhag lledaeniad yr arogl.*'

8. Bu Aelodau'n ymweld â'r safle cyn iddynt wneud penderfyniad ar gais yr apêl. Mae adroddiad y Pwyllgor yn nodi bod yr Aelodau wedi arogli arogl mwg ond roeddent o'r farn nad oedd yr arogleuon yn llethol nac yn '*niweidiol i'r fath raddau fel y gellid cyfiawnhau gwrthod caniatâd cynllunio ar sail amwynder.*'

9. Nid oes gennyf unrhyw reswm i amau'r adroddiadau am arogl a mwg gan breswylwyr lleol, ond nid oes modd penderfynu o ba foeler y deilliodd y problemau. Mae'r apelydd yn cydnabod bod boeler rhif 2 wedi achosi niwsans, felly nid yw ei ddefnydd parhaus wedi'i gynnwys yng nghais yr apêl.

10. Mae'r Cyngor o'r farn bod y posibiliadau ar gyfer lliniaru wedi'i ddihysbyddu ac mae'n pryderu efallai na fydd yn gallu cytuno ar strategaeth liniaru pe bai angen un drwy amod. Yn ôl y dystiolaeth sydd ger fy mron, sy'n deillio o arsylwadau'r Cyngor ei hun yn ystod y cyfnod prawf ac yn ystod ymweliad yr Aelodau, mae boeler rhif 1 yn gweithredu heb unrhyw effaith annerbyniol ar breswylwyr cyfagos, gan gynnwys meddianwyr y garafán.

11. Rwy'n tybio bod y mesurau lliniaru y cytunwyd arnynt yn flaenorol yn weithredol pan ymwelodd swyddogion cynllunio a swyddogion iechyd yr amgylchedd y Cyngor, ac ni nodwyd unrhyw effeithiau annerbyniol. Mae angen strategaeth lliniaru i ddiogelu amodau

byw preswylwyr cyfagos, ac yng ngoleuni'r uchod, ni welaf unrhyw reswm na ellir cytuno ar strategaeth o'r fath. Ni ddylid atal caniatâd cynllunio dim ond oherwydd y byddai monitro amod yn feichus ar yr awdurdod cynllunio lleol.

**Casgliad**

12. Am y rhesymau a roddir uchod ac ar ôl ystyried yr holl faterion a godwyd, deuaf i'r casgliad na fyddai'r datblygiad a gynigir yn cael effaith annerbyniol ar amodau byw preswylwyr lleol. Deuaf i'r casgliad bod y cynnig yn cydymffurfio â Pholisïau DM22 a LU25 Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (2007 – 2022), a fabwysiadwyd yn 2013.

13. Wrth wneud fy mhenderfyniad, rwyf wedi ystyried gofynion adran 3 ac adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ystyriaf fod y penderfyniad hwn yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf trwy ei gyfraniad tuag at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.

*A Thickett*

Arolygydd